

---

This is a reproduction of a library book that was digitized by Google as part of an ongoing effort to preserve the information in books and make it universally accessible.

Google™ books

<https://books.google.com>



11595

**CYWYDD**

AR

**FUDDUGOLIAETH TRAFALGAR,**

A MARWOLAETH Y PEN LLYNGESYDD,

**ARGLWYDD NELSON.**

Testyn Eisteddfod Gwent, a gynhaliwyd yn Aberl. onddu,  
Medi 26, 1826.

YNGHYD A

**Yer Awdl**

I GOFFA

*Y Godidog Brif Fardd Dafydd Ionawr,*

A

**CHYWYDD**

O DDIOLCHGARWCH

**IDD YR ATHRAW, G. O. PUGH,**

AM EI ANRHEG O

**Goll Gwynfa.**

AT BA RAI Y CHWANEGWYD YCHYDIG O

**EMYNAU.**

— o —

GAN WILLIAM REES, LLANSANNAN; NEU  
WILYM HIRAETHOG.

— o —

GJYNDOD-WRYF!

Llanrwst:

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES.

1827.

1875

THE UNIVERSITY OF CHICAGO

LIBRARY

PHYSICS

PHYSICAL CHEMISTRY

PHYSICAL CHEMISTRY

PHYSICAL CHEMISTRY

PHYSICAL CHEMISTRY

PHYSICAL CHEMISTRY

PHYSICAL CHEMISTRY

PHYSICAL CHEMISTRY



# CYWYDD

AR

**FUDDUGOLIAETH TRAFALGAR,**

A MARWOLAETH Y PEN LLYNGESYDD,

**ARGLWYDD NELSON.**

Testyn Eisteddfod Gwent, a gynhaliwyd yn Aberhonddu,  
Medi 26, 1826.

YNGHYD A

**Ger Awdl**

I GOFFA

*Y Godidog Brif Fardd Dafydd Ionawr,*

A

**GHYWYDD**

O DDIOLCHGARWCH

**IDD YR ATHRAW, G. O. PUGH,**

AM EI ANRHEG O

**Goll Gwynfa,**

AT BA RAI Y CHWANEGWYD YCHYDIG O

**EMYNAU.**

—o—

GAN WILLIAM REES, LLANSANNAN, NEU  
WILYM HIRAETHOG.

—o—

**GWYNDOD-WRYF:**

**Llanrbost:**

**ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES.**

1827:



**CYWYDD**  
AR  
**FRWYDR TRAFALGAR,**

A

*Marwolaeth y Pen Llyngesydd Arglwydd  
Nelson.*

Un o Destunau Eisteddfod Gwent,\* a gynhaliwyd yn Aberhonddu,  
Medi 26, 1826.

---

**DYRO** anadl der wenydd,  
Yn ewybr rhed, myn lwybr rhydd;  
Dwg gofres o hanes hen  
Ireiddwch Arwr addien,  
Arglwydd Nelson wronawl,  
Un a fydd eirian ei fawl;  
Hwn oedd dwrn, nawdd y deyrnas,  
Dychryn gelyn cyndyn cas.

Pan oedd anferth ryferthwy  
Rhyfelgar, na fu fâr fwy;  
Ewrop yn sŷn ddirgrynu,  
Bob gronyn mewn dychryn du!  
A braw yn ysgwyd ei brig,  
Arswyd y blaidd o Gorsig;  
Hwn a'i erwin fyddinoedd,  
Yn derfysglyd, enbyd oedd;  
Mynai'r byd i gyd o'i gwr,  
I'w grafangau, gryf wingwr.

10

Ond Nelson yn ëon aeth  
I chwalu ei oruchwyliaeth.

20

\*Barnwyd mai y Cywydd hwn a deilyngai y Wobr.

Ai dynion glewion, di glwy',  
 Gedeirn anorchfygadwy ;  
 Gyda 'u Llywydd celfydd, cu,  
 Yn wrolion ddewr wiwlu ;  
 Nid ofnynt, hwy dreiddynt drwy  
 Yr eidiog ddwfr rhuadwy ;  
 Tros ei donawg leidiawg li',  
 Elynt, tòn ymwroli.

O'u blaen, eu holl alon blwng  
 Daflynt i'r eigion duflwng :  
 Rho'yn' y dorf, erwin derfysg,  
 Yn eu bâr yn giniaw i bysg !  
 Eu gwych hyflonwych flaenor,  
 Ni bu 'r fath gan neb ar fôr ;  
 Rhoes dranc a; rwysg y Ffranciaid,  
 Llonyddodd, blinodd y blaid ;  
 O flaen ei nerth yn gerth gynt,  
 Eu llongau ymollyngynt.

Bu acw, yn *Aboukir*,  
 Ymladd, a lladd a gwall hir !  
 Dynion Ffrainge am danio 'n ffraeth,  
 I gael y fuddugoliaeth ;  
 I'w gwydlawn dybiau gwaedlyd,  
 Siomiant a gawsant i gyd ;  
 Rhoes Nelson hylon, ar hynt,  
 Addig ddymchweliad iddynt ;  
 Drylliodd, e daflood i'r dôn  
 Ei galonawg elynion ;  
 Bwriodd i'r ddofnwleb orôr,  
 Eu dynion mawrion i'r môr ;  
 C'weiriai 'u gwely, llety haith,  
 Yn y dylif dwfn dalaith.

30

40

50

Yr oedd ei wych arwyddair  
 Yn rhagorol wrol air;  
 " Mae Prydain wyl mewn dysgwyl dwys,  
 " Y gwelir ei meibion gwiwlwys  
 " Yn gwneyd oll, oll a allont,  
 " Lle bynag, bynag y b'ont."\*  
 A gwnaeth ef hyny hefyd,  
 Heb ballu, tra bu 'n y byd. 60  
 Tra bu 'r gŵr yn milwrio,  
 Gorchfygodd, trechodd bob tro.  
 Ei hanes, Arwr heini',  
 A'i ragorawl freiniawl fri,  
 A'i hoenus gampau hynod,  
 A'i haeddawl ryglyddawl glod,  
 Byth, byth ni all awen bwr  
 Yma henwi mo'u haner.

Y gorwych gampau gwrol,  
 Yn awr, adawaf yn ol, 70  
 I adrodd hynt ei helynt a  
 Ei alon y tro ola';  
 Tro a gofir, trig hefyd  
 Fawl iddo tra byddo byd.

Hwyliai'n gain o Frydain fro,  
 A dynion dewrion dano;  
 Ei llynges eres yrai  
 Dros y Werydd, rhydd yr ai;  
 A'r môr mawr, a'i laswawr li'  
 Tonnawg, yn berwi tani! 80  
 Gwnai lwybrau trwy ei frau frig,  
 Ei rodiaw, a'i aredig;  
 Anafai wyneb Neifion,  
 Chwalai 'r dwfr, a chiliai'r dôn.

\* England expects every man to do his duty.



Trwy wybr Ner, y banerau  
 Yn tryliwiawg wibiawg wau,  
 Nes bod eu glwys gysgodion  
 Ar rydd adenydd y dòn,  
 Yn rhoi gwawr, eurwawr orwych,  
 Ar ddyfrlli' y weilgi 'n wych;  
 Holl oror y môr mawrwiw,  
 I gyd mal rhosynau gwiw!

90

Yn awr, dychwelwn yn nes  
 I wrawl ddiwedd eres,  
 Diwedd helynt yr hynt hon,  
 A'i thradewr faith weithredion;  
 Mawr fâr wrth *Trafalgar* fu,  
 A rhyw filain ryfelu;  
 Anfad ryfelgad ar fôr,  
 Oer gwynfan ar eigionfor!  
 Spain a Ffrainc yn ddwy gainc ddig,  
 Oeddynt elynion addig;  
 Dwy 'n mhen un yn gytun gaid,  
 Fal anwar gerth fileiniaid.

100

Cyn bloeddio, ergydio i'r gad,  
 Safai y Llywydd sywfad,  
 Er enyn ei wŷr anwyl,  
 A'u rhoddi 'n heini' mewn hwyl.

“ Bechgyn Prydain fireinfad,  
 “ Chwi ddewrion glewion eich gwlad,  
 “ Meib gwrawl yu mhob goror,  
 “ Pennaethiaid, meistriaid y môr!  
 “ Adeg yw hon, na oedwch  
 “ I'ch dewrder, hoff lewder flwch,

110

" I gael ei ddangos ar goedd,  
 " A'i weled yn nghwmp miloedd  
 " O'ch gelynion creulon cras,  
 " Wrth eu trechu, eirth trachas ;  
 " Er i ddwy genedl oer ddig,  
 " I ymroddi mor addig

120

" I'n herbyn, er hyn mae'n rhaid  
 " Malurio eu milwriaid ;  
 " A byddwch fad wŷr clodadwy,  
 " Trwy eich dawn, yn trechu dwy.  
 " Dowch i'r gad â'ch ergydion,  
 " Trywenwch, brethwch bob bron ;  
 " Llenwch foliau'r gynau i gyd,  
 " Oergwmp angau 'mhob ergyd ;  
 " Anelwch groesion alon,

130

" Lluchiwch, duliwch hwy i'r dôn,  
 " A gwnewch ddifrad ofnadwy,  
 " Na arbedwch, holltwch hwy.  
 " Diamau afraid imi,  
 " Wŷr enwog, eich anog chwi,  
 " Ydych barod, wiwnod wedd,  
 " I lunio eu celanedd !

" Coeliaf mai dewr pob calon  
 " Y sydd yn y Llynges hon :  
 " 'Rwy'n ddarllen ar eich gwên gu,  
 " Y gwroniaid digrynu,  
 " Mai sawdwyr grymus ydych,  
 " Llwy'r ddiofn ac eofn y'ch."

140

Gân wres ei eres araith,  
 Ei wŷr oll ar yr un waith,  
 Addurnwyd yn ddiornaidd,  
 A grym gwrolder i'r gwraidd!

Yna, twrf yr arfau tân  
 Eresawg, ddechreusau',  
 Yn dra uchel fagnelu,  
 Drwy óror y dyfnfor du! 150  
 Swn enbyd, tanllyd bob tu,  
 Tybiaf, yn gwrthatebu  
 Eu gilydd, mewn dig alaeth,  
 Gàn ruo mewn cyffro caeth!  
 Pylor yn lluchio peli  
 Tros wyneb maith, llajth y lli';  
 Mellt gwreichionllyd enbyd oedd  
 Yn dewfrith hyd y dyfroedd;  
 Nes b'ai'r môr oror eirian,  
 A thònu'r dyfnderau'n dân!! 160  
 Creuloni wnai'r weilgi 'n wyllt,  
 A ffrio yn gyffrowyllt,

Dinystyr ar ddinystyr a ddaeth;  
 O! fawredig ddifrodaeth!  
 Dynion mewn iug rhwng dannedd  
 Marwolaeth, yn gaeth eu gwedd:  
 Angau hyf â'i gleddyf glás  
 A luniai eu galanas:  
 Gwaed wrth erchyll bistylliaw,  
 Droer eigion yn drochion draw! 170  
 Och! afar! Ow, och hefyd!  
 Glas-for yn goch-for i gyd!

Anian pryd hyn ddychrynid,  
 Yr oedd ar ei hwyneb wrid!  
 A *Thrafalgar* yn waraidd,  
 A siglid, grynid i'r gwraidd!

Swn anfad yr hellgad hon,  
 Rwygai'r trochionfawr eigion!

Holltawdd y dyfroedd heilltion,  
Cythruddodd, digiodd y dôn! 180

Twrf aflawen bob enyd,  
Hwylbreni 'n holhti o hyd;  
Llongau 'n gorwag ymagor,  
Yn ddrylliawg i ferwawg fôr!  
Pan fai'r pelau'n gwau o gylch,  
Ai'r eigion anwar ogylch,  
O'u holau'n gwysau i gyd,  
Ail i âr ar ol eryd';  
Mwg a niwl o'r magneloedd,  
Yn wylldyrch drwy'r entyrch oedd;  
Rhag twrfawr rwyg y terfysg,  
O'u pau fe giliodd y pysg!

190

O'r blaen ni bu berw blwng,  
Na mawr aflwydd mor orflwng,  
Na'r fath gyflafan ar fôr,  
I'w chanfod ar drochionfor!

Wedi i'r mwg oedd d'wllwg du  
O'u goror ymwasgaru,  
Gwelid Llyngesau'r gâlon  
Yn ciliaw mewn braw o'r bron;  
Tan boenus, boenus benyd,  
A'u llongau'n agenau i gyd;  
A'u milwyr wedi eu malu  
Mewn digder, i'r dyfnder du!

200

Och! mae i ni gyni ac aeth,  
Galar, a buddugoliaeth!  
Collwyd y Llywydd callwych,  
Sef NELSON, y gwron gwych!  
Pan oedd llwydd hylwydd hoywlan,  
Yngwiwdeg redeg i'w rân,

210

B

A buddugawl freinniawl ffr,  
 Ar ei enwog goroni,  
 Dyna gwmwl dwl yn dod,  
 A du afar yn dyfod;  
 Aeth yn nos, nos arosol,  
 Ciliai'r wawr yn awr yn ol:  
 "NELSON erfai," cwynai eant,  
 "A laddwyd yn ei lwyddiant."  
 O'r galar, ar alar oedd,  
 Adwyth drwy'r Llynges ydoedd! 230  
 Tristwch ar dristwch drosti,  
 Gwladeiddiwyd, a hurtiwyd hi!  
 Colli ei phen, addien ŵr,  
 Ei gorenwog arweiniwr;  
 Wylodd, gollyngodd yn lli',  
 Hylawn, ei dagrau heli;  
 Gwelai'i blaenor, cynor cain,  
 Giwlwys, o'i blaen yn gelain,  
 Bellach, yn fud heb allu  
 Byth, byth eu llywio fâl bu; 230  
 Yna, â'i tewi'n anhawdd,  
 Drwy hyn, a wylo'n dra hawdd.

Hi droai, elai eilwaith,  
 Dros y dôn i'w dyrus daith;  
 I Brydain decaf brodir,  
 I ddweyd helynt ei hynt hir.

Gwylwyr Prydain a'i gwelynt  
 Yn croesi'r dôn, hoywkon hynt,  
 Yna, fe ro'ed i enyn,  
 Bylor i gyhoeddi hyn. 240  
 Rhedai Prydain lwygais lad,  
 I gyffarch ei meib gwiwfad;

Brysio wnai, hwyliai ar hynt,  
 I holi am eu helynt.  
 Ethryb eu gwel'd yn athrist,  
 Wŷr dewrion, yn drymion drist,  
 Hiddelwai, a safai'n sŷn,  
 Yn y dechreu, mewn dychryn.

“ Ah! fy meibion gwynion gwâr,  
 “ Gwelaf eich bod mewn galar;  
 “ Mynegwch, na chelwch chwi,  
 “ Achos y galar ichwi.”

250

Hwythau â dagrau digron,  
 A hardd atebynt i hon,  
 “ NELSON, NELSON anwylsyw,  
 “ Didwn fab, nid ydyw'n fyw!  
 “ Ein Llywydd, ein Llywydd llon  
 “ A yrwyd i blith meirwon!”

## PRYDAIN.

“ Och saeth ei farwolaethu!  
 “ Gwnewch adrodd pa fodd y fu.”

260

## ATEB.

“ Bu gorldiawg ferwawg fâr,  
 “ Rhyfelgad wrth *Trafalgar*,  
 “ Rh'om a'r Ffranciaid, gerthblaid gas,  
 “ Daerion ormeswyr diras;  
 “ Rhoisom ddial i'w calon,  
 “ Yn y fawrgad hagrgad hon,  
 “ Ond och! cyn ei therfynu,  
 “ Colli 'n Llywydd celfydd cu!  
 “ Ac yn nghol buddugoliaeth,  
 “ Mawr iawn ŵr, marw a wnaeth!”

270

Hithau droes mewn aethau draw,  
 Do, yn waelaidd dan wylaw;  
 Oer gwynodd mewn mawr gyni,  
 "Ow! Ow! fy mab arab i!  
 "Megais ddewrion wroniaid,  
 "A Llywyddion hylon haid,  
 "A hynod gampwyr heini',  
 "Nid tebyg, tebyg i ti!  
 "Rhoi't ddaŷ aelod, hynod ŵr,  
 "Gynt o'm plaid, euraid arwr;  
 "Rho'i d'eirioes einioes union,  
 "A wnaith ti yn yr hynt hon!  
 "Am dy faith iawnwaith ini,  
 "A allaf, talaf i ti;  
 "Cei orwedd, y cu wron,  
 "Yn St. Pawl, a hawl i hon,  
 "A cholofn orwech helaeth,  
 "Ar dy fedd, y cuffedd caeth,  
 "Fy nagrau inau'n ddiau dd'ant,  
 "Hwy'n anwyl a'i heneiniant;  
 "A'th enw ar dâl fy nghalon,  
 "Pery o hyd, pur yw hon;  
 "Bydd NELSON mewn gwiwlon gof,  
 "Tra anian yn troi ynof!"

280

290

◆◆◆◆◆

### BER AWDL

*I goffa y godidog Brif-fardd Dafydd Richards, Dolgellu, neu yn mhlith y Beirdd, Dafydd Ionawr. Yr hwn a hunodd, Mai 11, 1827.*

**O** Fâr du alar dieilydd,—hirwae  
 Herwydd marw DAFYDD;

Bwrw IONAWR, bêr awenydd,  
I'r tywod, syndod y sydd.

Ar ei ol, wiwber eilydd,—mawr yw'r gwall,  
Mae argyllaeth beunydd;  
Achwyn a swm ochain sydd  
Yn merwino Meirionydd!

Pan âi IONAWR lawr dan lèn,—tew orchudd  
Tywarchawg ddaearlen,  
Du niwl amdöai y nen,  
A deuai machlud Awen,

10

Ei fawr ddawn i farddoni,—arab oedd  
Ar bawb yn rhagori;  
Ein holl feirddion ëon ni,  
Dawynt pan canai DEWI.

Y mae ei serchog odidog hediadau,  
A'i loywaidd edlin Engylaidd odlau,  
Fal gwïn newydd neu fêl i'n geneuau,  
Ac yn llawn addysg, digymysg emau,  
Pob un o'i fad ganiadau—ddangosant  
Wiw bur urdduniant ei seinber ddoniau.

20

Fe iawn eiliai fanylwaith  
I'r DRINDOD, myfyrdod faith;  
I Joseph gwnai gân iesin,  
Felusa' gwaith o flas gwïn;  
Ac ar lwydd y mil blwyddau  
Bu'n seinber awenber wau;  
I'r Dylif, fardd difrif da,  
Eiliodd ei Gywydd ola',  
Pen Cywydd y Cywyddau,  
Pen campwaith pob campwaith cau.  
Ni wnai OFYDD gelfydd gân,



PINDAS, na HORAS eirian,  
 Y fath addien awenwaith,  
 Na thrwyadl ogystadl gwaith:  
 Heriwn Groeg fawr iawn ei grym,  
 Yn ei gwyneb, hawdd genym,  
 Ddangos Bardd iawnhardd ini,  
 Rhuchawr i ein IONAWR ni.

30

Ond er ei ffraeth ragoriaethau—gorwych,  
 A'i gywrain ber ddoniau,  
 A'i fedr gwych i fydrawg wau,  
 Ni ddiengodd yn nydd angau.

40

E oerai y llaw eirian,  
 Fu'n adeiliaw, gweithiaw'r gân;  
 Y bysedd arab asynt  
 Y Cywyddau gorau gynt,  
 Clöedig mewn clai ydynt,  
 Darfu eu-ffrwyth, anystwyth ynt;  
 A'r genau a bêr ganodd,  
 Ow! tywod, tywod a'i todd:  
 Brig Awenwr bro Gwynedd,  
 Mae'n farw, 'n farw 'n ei fedd.

50

Gelwir arno  
 'N fuan eto,  
 I'w ddihuno,  
 Brif-fardd hoenwych;  
 A'i addasu  
 I drigfanu,  
 Neu feddiannu  
 Nef addienwych.

Gair Iesu a egyr isod—ddorau  
 Ei ddaearawl feddrod,

“DAFYDD! yr wyf yn dyfod,  
“LONAWR cu, wel yn awr c’od.”

60

“Naid, naid o’r bedd, yn ddiomedd, yma,  
“Ac heb arosiad, yn wisci brysia  
“I fyw i lawenyfd nefol Wynfa,  
“Cei ffraeth awenyddiaeth ni heneiddia,  
“Ie, dawn na edwina,—d’enaidd rhydd  
“Yn y nef lonydd byth, byth ni flina.”

Cyfyd o fol y ceufedd,  
I wlad y drag’wyddol wledd,  
Adeilia Gywydd dilyth,  
I’r DRINDOD heb ballodod byth,

70

---

### CYWYDD

*Anerchiad a Diolchgarwch idd yr Athraw G. O. PUGHE,  
am ei Anrheg o Goll Gwynfa.*

**A**NNERCHAF, mae’n iawn orchwyl,  
A chanaf, o chaf wych hwyl,  
Mi a dalaf, mae dyled,  
Ber fawl am ragorawl ged,  
Hardd anrheg o’ch glwysdeg law,  
Y llithrig ddiwall Athraw;  
Pen Athraw hylaw ein hiaith,  
A mawredd yr Omeriaith:  
Odwymp ddysgedig Awdwr,  
Enwocaf, rhagoraf gwr.  
Dysgawdwr, arwr eirioes,  
Paladr yr iaith, pelydr ’r oes:  
O’r un fu drwy Gymra gain,  
Mwyaf yw GWILYM OWAIN.

10

Anrhydedd, mawredd i mi  
 Iselwas, oedd iwch sylwi  
 Ar fy math, er fy maethu,  
 Efo 'ch anrheg geinddeg gu,  
 A'm gwel'd yn glau, y brau bryf,  
 Yn werth i synio wrthyf.

Rhoddaf lith o fendithion 20  
 Am yr anrheg hardd-deg hon;  
 Deil iwch barch, iwch barch tra bwyf  
 Ag enaid bywiog ynwyf:  
 Iach gywir ddiolchgarwch  
 Yn fflam yn fy nghalon fflwch  
 Bydd, tra rhydd fâd guriadau,  
 A gwres yn y fynwes fau;  
 A thra dŷd ei hergyd hi  
 Waith anian trwy'm gwythieni. 30  
 Ië, bydd beunydd tra b'o  
 Myg anadl yn 'megnio.

I gyd fal cenedl ydym  
 I chwi'n glau tân rwymau 'rym:  
 Clod ni chai'n hynod heniaith  
 Heboch chwi, na byw ychwaith!  
 Llawer gair yn llwyr o gof,  
 Sengyd i geuffos anghof,  
 Cawsynt fod heb eu codi,  
 Hwyl goll'sid pe na chawsid chwi. 40  
 Buasynt, buasynt byth,  
 Draw o gof yn dragyfyth.  
 E dynai'r hen Brydeiniaith  
 Tu a'r bedd, diwedd y daith,  
 Llid a gwarth gwnai'n llwyd ei gwedd,  
 A golwg ddiymgeledd

Oedd arni 'n ei chyni chwith,  
 Ei hedrychiad â'n drachwith,  
 Cau dyrnau gwnai cedeirnweilch,  
 Yn eu bâr, rai ëon beilch, 50  
 Arni, ac mewn gwyrni a gwall,  
 Egr wingai gwyr a'nghall  
 Yn gyndyn i'w herbyn hi,  
 Anfadweis, i'w difodi:  
 Llu o alon digllon dewr,  
 A'u cry' lawuddig creulonddewr,  
 Oeddynt o ddigder iddi,  
 A bryd tost gwneyd ei brad hi:  
 A pheth gwaeth ysywaeth sydd,  
 Ac eilwaith mwy cywilydd; 60  
 Ei *cheraint* droynt i'w churaw,  
 A bâr drwg i'w bwrw draw!  
 I'w gwadu rhwth godai rhai  
 'N fyg iesin a fagasai!

Yn y cyfwng trablwng trist,  
 Aruthrawl dymor athrist,  
 Y deuech a chodech chwi  
 Ryw noddiant cadarn iddi,  
 Cry' gastell caerog ogylch,  
 A chaer amddiffyn o'i chylch, 70  
 Twr enwog i'n tirioniaith,  
 Gadarn glawdd yn nawdd i'n iaith,  
 Harddfad adeilad dilyth,  
 Pair i'wch fawl anfarwawl fyth!  
 Hwn yw mawrwaith perffaith pur  
 Y goreudeg EIRIADUR.

O bryd i bryd o fewn ein bro;  
 Deuai eraill i daro

C

Yn ei phlaid, iaith gànaid gu,  
 Er ei chyfiawn dderchafu; 80  
 Chwilio o hyd, a chael yn hon,  
 Eirioes euraidd drysorion.

Ac yna llon fu'n cain wellhâd,  
 Dyfyrus cai adferiad;  
 Deuai'r haul 'nol duoer hin,  
 Ac oeraidd auaf gerwin,  
 I'w hynawsaidd gynhesu,  
 Ei gwedd a newidiai'n gu:  
 Tidau 'i gwddf ddatodai i gyd  
 Yn fanion, yn y funyd; 90  
 Tafodau oeddynt fudion,  
 Hwylt hwy ni lafarynt hon,  
 Ddoynt i'w digabl barablu,  
 A'i pherchi, iaith geinfaith gu;  
 Yr awr hon y gwelir hi  
 Yn ei henaint yn heini'.

A chwi'n benaf, guaf gŵr,  
 A gododd, enwog Awdwr,  
 Ei phen o'i dwfn drueni,  
 Mewn amser i'w hadfer hi. 100

Heblw codi, noddi 'n iaith,  
 Adeiladu'n teleidiaith,  
 Gwiw roddech gywir addien,  
 Lawer eres hanes hen;  
 Lechasai tan lwch oesawl,  
 Mewn t'wllwg rhag golwg gwawl.

Rhifo ni ellir hefyd,  
 Na choffhau 'ch holl gampau i gyd!

Dyma waith o'ch cyfieithiad,  
Ddarn glwys, sydd yn addurn gwlad. 110

COLL GWYNFA, rhyw gell geinferth,  
Firain gu, fawr iawn ei gwerth!

Wedi ei chael i'm gafaelion,

Yma'n fâd, a llygad llon,

Agorais ei gwyn gaerau,

I wel'd y mydryddawg wau:

Darllenais, synais enyd,

A rhyfeddwn hwn o hyd:

Darllenwn, holwn eilwaith,

Pa ryw a wnaï gyfryw gwaith? 120

Pwy a blethai, geinciai'r gân?

Ai cu *Angel* fu'n cyngau?

Ai *Cerub* fu 'n cyweiriaw,

A'i drem goruwch Gwynfa draw!

Ac ar waith y Cyfieithydd,

Argraff awen *Seraff* sydd!

Cawn eres hanes hynod,

Manylgu fâl bu yn bod,

Pan trwy falchder, chwerwder chwyrn,

Codai o'r engyl cedyru, 130

Filoedd i wrthryfelu

'N erbyn Iôr, eu Cynor eu.

Ymladdfa, aerfa erfawr,

Fu yn y nef wên yn awr;

Rhyfedd ddarlunir hefyd

Ddull hon yn gyson i gyd.

Cedeirn y byd ysprydawl,

*Engylion* gwynion y gwawl,

A *Chythreuliaid* arw haid hyll,

Llu taeog y lle tywyll; 140

Deulu'n ymdrechu 'n dracherth,  
A'u hynod anorfod nerth.

Efe'r Ion, taranai fry,  
Abred a grynai obry!  
Troi' alon eon yn ol  
I gaddug yn drag'wyddol!  
Eu bwrw i lawr i'r berw lyn,  
I ddechreu 'u bythol ddychryn!  
I afael barn gadarnaf,  
I dywyllwg tân wg Naf. 150  
Aspiaid y tân eiriaspoeth,  
Ar y pyd ufeliar poeth,  
Wnaynt soddi tân gyni'n gaeth,  
Hyd eigion colledigaeth!

Llunir eu holl ddull annoeth,  
Eu braw, a'u bâr yn 'u bro boeth;  
A'r oll osodir allan,  
I gyd, mewn angylaidd gân.

Hanes cynghor y côr certh,  
A'u hyll ynfyd ddull anferth, 160  
Yn llunio dichell anwar,  
I hudaw'r *Dyn*, gwiwddyn gwâr,  
Oedd yn Eden wên heb wall,  
Yn dawel mewn lle diwall.

Hynod awenawl hanes,  
O'i le da 'n NGHOLL GWYNFA ge's:  
Cofiai ddarlunio'r cyfan,  
Urdd, a chlod yr Ardd achlân!  
Blodau amryliwiau 'n lwys,  
Yn brodiaw *ŷi Baradwys!* 170

Gleinion grogedig lèni,  
 A'i gwychynt, a'i harddynt hi:  
 A'n uchelradd dad Adda  
 Yn Llyw doeth ar y lle da!  
 A holl anian yn llonydd  
 Ger ei fron, w'r rhadlon rhydd.  
 A gwnai Ion, doeth diriondad,  
 Gymhares i'w fynwes fâd;  
 Mawr lawenydd fu'n dydd dwys,  
 Priodid Gŵr Paradwys,  
 Efo ei lon Efa laidd,  
 Oreuwech Wraig garuaidd:  
 Engylion gwynion yn gôr,  
 A wnaethant gadw ei neithior!

180

Genynt 'r oedd pob digonedd  
 Eill dau i'w mwynhau mewn hedd;  
 Ffrwythydd roddai'r coedydd cu,  
 Da oll, er eu diwallu:  
 Aeron ddigon a ddygynt,  
 Mewn bri, i'w digoni gynt.

190

Un pren yn Eden ydoedd  
 Gwaharddedig, unig oedd;  
 Ion a gadwai *un* goeden,  
 Er eu prawf gwaharddai'r pren.

Ond er mawredd rhyfeddol,  
 Mae gwaeth hanesiaeth yn ol;  
 Llwyddai cais dyfais y diawl  
 Yn Eden, dro niweidiawl!  
 I dafu, codymu dyn,  
 Anwylyd Duw, a wnai 'n elyn!

200



Aeth i'r Sarp i wneuthur swyn,  
 Trwyddi bu'n gweini'r gwenwyn;  
 A chysonai erch swynion,  
 Eon hud, drwy enau hon;  
 Traethai hirfaith araith a  
 Anafai galon Efa:  
 Gwnai lwyddaw i hudaw hon  
 I gyrhaedd y teg aeron,  
 Ydoedd yn waharddedig,  
 Bwyta wnaeth o'i doraeth dig;  
 Dug i Adda, deg wiwddyn,  
 Eirian, hardd, o'r aeron hyn:  
 Yntau profai, erfai wr,  
 A suddai yn droseddwr.  
 Ein tad a'n mam, ddinam ddau,  
 Hynt engyrth, llyncynt angau!  
 O dyma farwol damaid!  
 O'i blegid gofid a gaid.

210

E welid nef yn wylo,  
 Arwydd trist! herwydd y tro;  
 A'r Gre'digaeth tân gaeth gur,  
 Yn delwi yn ei dolur!  
 Gwyneb anian gân benyd,  
 A'i gwedd a newidiai i gyd!  
 Trwy hynod bechod a bâr,  
 E andwyid ein daear!  
 Colli gwèn Eden ydoedd  
 Y canlyniad, anfad oedd;  
 Dyma destyn, destyn dwys,  
 Y ganiad, a'i mawr gynhwys.

220

230

Colli gwynfyd, bywyd byth,  
 O'n gafael yn dragyfyth,

Buasem oni bai Iesu,  
 O'i gariad, ein Ceidwad cu,  
 Roi ei hunan dân y dig,  
 I godi'r halogedig.

Adroddi mewn mydryddiaith,  
 Hanner yr awenber waith,  
 Ni cheisiaf, ni fedraf fi,  
 Diau mai gwell im' dewi;  
 Rhyw wingoeth bêr awengerdd,  
 Dwyfol gu, dihafal gerdd!  
 Duw hael i'r gŵr hael a'i rhoes,  
 A rana bedair einioes.

240

---

## ENGLYNION

*Ar Swyddau yr Offeiriad.*

**D**IAU swyddwyr dwys oeddynt,—a gwiwfawr  
 Y gofal oedd arnynt;  
 Dwyn Ebyrth lu orfuynt,  
 Oll i'r gaeth hen allor gynt.

Anifeiliaid yn filoedd—*a laddent,*  
 Bob blwyddyn ar gyhoedd,  
 Llenwi wnai 'r gwaed yn llynoedd,  
 Bach o dâl am bechod oedd.

Bychod, a Hyrddod heirddion,—*eu dryllid*  
 Ar allor Deddf gyfion;  
 Eidionau yn lle dynion,  
 Ai'n ufel hwynt, dân afael hon!

Aberthynt, torynt Durturod,—*gwaraidd,*  
 A gwirion G'lomenod;

Rhy ddirym i wneyd cymod,  
Eu rhinwedd, yn niwedd nod.

Wedi lladd a gwaedu llu—o ebyrth,  
A dibaid offrymu,  
'Roedd y berffaith gyfraith gu,  
Eilwaith heb ymdawelu.

Rhoddi gerbron hon o hyd,—ireiddwaed  
Yr oeddynt drwy'r cynfyd;  
I lanhau beiau 'u bywyd,  
Rhy ddinerth eu gwerth i gyd.

Ond gwelaf ar Galfaria,—iawn Aberth  
Yn wynebu'r lladdfa;  
Un dieilfydd mewn dalfa,  
Ie, hwn oedd a'i enw yn IAH!

Duw pur yn natur dyn ytoedd,—Lluniwr  
Holl anian a'i chylchoedd;  
Lloer, Neifion, Llawr, a Nefoedd,  
Gwaith ei law a'i eiddaw oedd.

Nid rhith, na lledrith rhwng lladrawn,—a wnaeth  
Yn eitha'i wasgfeuawn;  
Ond rho'i taliad llwyr-fad llawn,  
Gwiw fanwl i'r gofyniawn.

Llon'd 'r adwy llawnder ydoedd,—a'i haeddiant  
Dyhuddai y Nefoedd;  
Ei fad einioes, eirioes oedd,  
Roes i lawr dros laweroedd.

Rho'ed dyben ar waed Ebyrth,—ni ddeuant,  
I'w ddwyn drwy'r Cysegr-byrth;

Yn y clau angau engyrth,  
E gauwyd, bolltwyd ei byrth.

Wynebai âg *Un* Aberth,—*Un* di fai  
*Un* Dwyfol uchelwerth;  
*Un* priod-waed, *Un* pridwerth,  
Iawn waed oedd ddigon ei werth.

Deddf gyfiawn a lawn foddlonid—yn awr,  
A'r Nef a dawelid;  
Gwerth yr Iawn gwiwlawn gwelid,  
Dofai lef y Dwyfol lid.

Da gwn na holwn yn hwy—am ychain,  
Caed Meichiau clodadwy;  
Na gwaed mād Aberthadwy,  
I lifo meib Lefi mwy.

Y Gyllell wyarlem a gollai—'i gwaith  
I gyd a ddiweddai,  
Y berffaith gyfraith a gai  
Iawn Dwyfol gân Oen difai.



*Angau a Buddugoliaeth Crist.*

**G**WEL fawrwaith ar Galfaria,—Ior yno  
Arweinid i'r lladdfa;  
Ie, Oen teg, diniwed, Ha!  
Fy enaid! a fu yna.

Trwm y gwawd dirmygedig,—a gafai,  
A gofid dwysedig;  
Do, bu'n griddfan dân y dig,  
A'i aelodau 'n hoeliedig!

D

Yn y drom frwydr yma,—(poenus oedd,)  
 Pen y Saph gai 'aigfa;  
 A holl gethern uffern a  
 Gilgwithid ar Golgotha.

Iesu orchfygai drosom,—yn ein lle'  
 A'i 'n llawen i'r storom;  
 Wedi 'r frwydrin, dryc-hin drom,  
 Fe rodiai o fro Edom!

---

EMYN, I.

*Crist yn ffoi rhag Herod.*

**C**RWYDRO. wnai fy myfyrdodau,  
 Draw yn ol ryw oesau 'mhell,  
 O swm y byd a'i drafferth ofer  
 Cawn bleserau llawer gwell;  
 'N Beth' em gwelwn blygu 'r Duwdod  
 Lawr at ddyndod, yn y fân,  
 Wed'yn gwelwn Awdwr natur  
 Yn ffoi rhag ei greadur gwan!

Trowch eich golwg, Engyl, gwelwch,  
 Beth debygwch chwi yn awr?  
 'R Hollalluog fel mewn dychryn,  
 Ffy rhag gwyfyn llwyd y llawr!  
 Duw yn Ddyn yn mreichiau Gwryf,  
 Wrth ei bron yn ddistaw brudd,  
 'R hwn gynhwysai drag'wyddoldeb,  
 Llechai dân ei mantell gudd!

Iesu! Iesu! tewi 'rydym,  
 Caua genau pawb o'r bron;

Boddi 'r ŷm mewn dirfawr syndod,  
 'Ngolwg y rhyfeddod hon;  
 Dalit yn dy law y bydoedd,  
 Cau y moroedd yn dy ddwrn,  
 Gair o'th enau yn ddigonol,  
 Byth i gloi 'r uffernol ffwrn.

Gall'sit wneud y Greadigaeth,  
 'N chwilfriw mân mewn mynyd awr,  
 Chwythu ser yr uchelderau  
 'N friwsion oll o'u cylchau lawr;  
 Gafael yn nghornelau'r ddaear,  
 Ysgwyd hon uwch bythol fyd,  
 Nes buasai ei thrigolion  
 Yn dyferu yno i gyd.

Neu ro'i mellt ar waith i'w hollti,  
 Yn agenau oll i gyd;  
 Neu ro'i 'r tân sydd yn ei mynwes,  
 I'w gwneyd yn eirias wên ynghyd;  
 Tafu Herod falch, annuwiol,  
 Draw i ganol uffern ddofn,  
 Yn lle hyny ffoit oddiwrtho,  
 Iesu, fel pe b'asit ofn!

Clywaf *Celsus*\* gas yn gofyn,  
 "Ai ffoi, ai ffoi ac yntau 'n Dduw?  
 "Ai rhy fychan oedd ei allu  
 "'Ngwyneb un o ddynol ryw?  
 "Chwith oedd gweled Duw yn ddiau,  
 "Yn ffoi i'r Aipht y'ngghôl 'i fam,

\*Erlidiwr a chablwr nodedig, ysgrifennai draethawd i ddirmygu Cristionogaeth, yn mha un y mae yn son am ffôad yr Arglwydd Iesu efo ei fam idd yr Aipht, gyda y gwawd ac y dirmyg uwyaî.

“ Am ei fod yn analluog  
 “ I amddiffyn dim o'i gam!”

Nage, *Celsus*, nage, nage,  
 Olwyn arfaeth oedd yn troi;  
 Mewn ufudd-dod i'w hammodau,  
 Darfu'n Iesu mawr ni ffoi;  
 Rhaid cyflawni'r cynfwriadau,  
 'Nghyd â'r ysgrythyrau oll,  
 Cynt 'r â nef a daear heibio  
 Nag 'r â sill o'r rhai'n ar goll.

Deuai 'n ol a baeddai uffern,  
 Ar y croesbren yn ei waed,  
 Marw fu dân orfoleddu,  
 A'i elynion dân ei draed;  
 Aeth i'r bedd, ond daeth oddiyno,  
 Torai gloion angau i gyd,  
 Codai, ac ar 'i enau siriol  
 Wên faddeuol ar y byd!!

Esgyn wnai yn mhen ychydig,  
 I lys 'i fendigedig Dad,  
 Ugain mil o Engyl fflamlyd,  
 Dyna 'i gerbyd tua'r wlad;  
 Nef yn plygu i'w gyfarfod,  
 I ro'i'r goron ar ei ben,  
 Adsain hyfryd y bloeddiadau  
 Grynai seiliau'r ddinas wên!

Eto daw mewn Dwyfol fawredd,  
 I farnu ar ei orsedd fawr;  
 Herod falch annuwiol yno  
 'N dŵo ger ei fron yn awr,  
 Galw ar greigiau, hwythau 'n holhti,

Dyma dymor heb ei ail!  
 Andes gribawg megis ewig,  
 Neidiai 'n wyllt oddiar ei sail!

---

EMYN II.

*Mawredd y Cyfryngwr.*—8,6.

**Y**N eistedd fry mae'n Iesu mawr  
 Yr awrhon yn y Nef;  
 A phawb yn plygu eu gliniau i lawr,  
 Ger bron ei orsedd ef.

Mae'r holl *Seraphiaid* ger ei fron,  
 Engylion pur dilyth;  
 Yn edrych yn ei wyneb cu,  
 Gàn ei ryfeddu fyth.

Mae yno seintiau fyrdd y'nghyd,  
 Mewn gwisgoedd hyfryd liw,  
 Cyfiawnder weithiodd Iesu pur,  
 Yn natur dynol ryw.

A phawb yn chwarae peraid dant,  
 O foliant "iddo ef;"  
 Ac am ei angau drud y sôn  
 Holl delynorion nef.

---

EMYN III.

8, 8.

**N**ID oes gwrthrych ar y ddaear,  
 I'w gyff'lybu i'n Iesu hawddgar;



Mae trysorau ynddo 'i hunan,  
Mwy na gwerth y nef yn gyfan.

Tecach yw na meibion dynion,  
Gwŷn a gwridog yw ei Berson;  
Rhoddwyd gras ar ei wefusau,  
Gwell na'r gwin yw gair ei enau.

Y mae enaint ei rasmusau  
'N perarogli ei wisgiadau,  
Hyny sydd o hyd yn denu  
Rhyw Lancesau fyrdd i'w garu.

Enw'n Iesu yn oes oesoedd  
Fydd digrifwch yr holl nefoedd,  
Bydd trag'wyddol sôn am dano,  
Wedi i bob peth arall beidio.

---

## ENGLYNION

AR

### "GYFEILLGARWCH."

*Testyn Eisteddfod Tâl y Cafn, Hydref 30, 1823.\**

**D**UW a roes i'w dêr weision—oll gyraedd  
Cyfeillgarwch fyddlon;—  
Ffrwyth cariad o ddifrad fron,  
I'w goledd yn y galon.

\* Ni roddodd yr Awdwr yr Englynion hyn i mewn ymhlith y  
ymgeiswyr am y wobr, o herwydd fod dymuniad rhai o'r Beirniai  
i gael ei gynnorthwy i olygu y gwahanol gyfansoddiadau a anfonasi  
ar y testyn.

Canfyddwn yn hwn, i'w fwynhau,—ddywenydd  
 I ddynawl deimladau.  
 Pa rym mwy llym am wellhau,  
 A phoethach ei effeithiau?

Calon ffyddlaw, lawn haclioni,—a gwir  
 Gyfeillgarwch ynddi,  
 Llid eirias ni all dori.  
 Gorddwysder ei hoffder hi.

I ddynion mae'n ddiddanweh,—rhyw gariad  
 Rhagorol hyfrydwch:—  
 Mae serch bywiawg, fflamawg, fflwch,  
 Lle gorwedd Cyfeillgarwch.

Mewn trallod, chwerwdod, a chur,—mewn angen,  
 Neu mewn ing a dolur,  
 Y no cais weini cysur,—  
 Cyd ddwyn baich,—cyd odde'n bur.

Pan fo gofid, llid, trallodau,—'n darwain  
 Blinderus feddyliau,  
 O'u hadroddiad, i raddau,  
 Gwn y gall *hwn* ein gwellhau.

Mor fuddiol, amryw foddion,—yw 'nabod  
 Wynebau Cyfeillion;  
 Rhoddant hwy gynnorthwyon  
 Er cyraedd tir, rhag cwrdd tôn.

Holl gerydd Cyfeillgarwch—derbynir  
 Heb un diystyrwch;  
 A'r galon, mewn dirgelwch,  
 Er lles, ef a'i dwg i'r llwch.

Ac felly pâr Cyfeillion,—wiw frodyr,  
 Fawredig gysuron :—  
 Goreu braint bod ger eu bron,  
 Ynghyraedd eu cynghorion.

Un CYFAILL, (iawn y cofiom—ei rinwedd,)  
 A ro'i 'i einioes droşom ;  
 Câr da 'i serch, cywir, di siðm,  
 Yn nerthol a lÿn wrthom.

Goruwch brwd gyfeillgarwch brau—cafwyd  
 Cyfaill i'n heneidiau :  
 Os ceir ei hedd a'i sicrhau  
 Nes trengom, nis tÿr angau.

Felly, gwir Gyfeillgarwch—a brofom,  
 Yn ei brif brydferthwch,  
 Tu draw i'r bedd, mewn heddwch,  
 Gwedi i'r llu godi o'r llwch.

*J. Jones, Argraffydd.*

DIWEDD.

24 DE 67

---

*Llanrwst: Argraffwyd gan John Jones.*